

Rhif: WG25401



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2015

Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar

- Cynulleidfa** Mae Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar wedi ei anelu at bawb sy'n arwain, yn comisiynu ac yn darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd o adeg beichiogrwydd hyd at saith oed (diwedd y Cyfnod Sylfaen) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys bydwagedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, gweithwyr gofal plant, gweithwyr chwarae, athrawon, cynorthwyyr addysgu, gweithwyr cymdeithasol, meddygon, deintyddion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol (BILI) ac ymddiriedolaethau iechyd yn ogystal â'r llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol.
- Trosolwg** Yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* gwnaethom ymrwymiad i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar a chynnal ymgynghoriad arno. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi'r fframwaith drafft a ddefnyddir i'n helpu i ddeall i ba raddau y mae ein polisiâu a'n rhaglenni yn cael effaith. Y bwriad hefyd yw y bydd pawb yn sector y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn defnyddio'r fframwaith fel adnodd i ysgogi gwelliannau ar lefel leol. Bydd yn darparu tystiolaeth i ddangos pa un a ydynt yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant 0 i 7 oed a'u teuluoedd.
- Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau
- Dogfennau cysylltiedig** *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013)
www.llyw.cymru/topics/educationandskills/earlyyearshome/building-a-brighter-future-early-years-and-childcare-plan/?skip=1&lang=cy
Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar
www.llyw.cymru/topics/educationandskills/earlyyearshome/early-years-partnership-board/?skip=1&lang=cy

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad	2
Dadansoddiad o'r ymatebion	2
Ymgynghoriad Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar sy'n gyfeillgar i bobl ifanc	11
Camau nesaf	11

Cyflwyniad

Ar 16 Hydref 2014 lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghoriad ar Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar. Roedd ar agor i dderbyn ymatebion tan 15 Ionawr 2015. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cyfanswm o 8 o gwestiynau. Nodwyd y rhain mewn dogfen ar wahân ar fformat ffurflen, ynghyd â chwestiwn ychwanegol yn gofyn am unrhyw sylwadau eraill, er mwyn ei gwneud yn haws i'w dychwelyd ar e-bost ac yn y post.

Hefyd, ar 20 Ionawr, cyhoeddwyd dogfen sy'n gyfeillgar i bobl ifanc drwy Llais Disgyblion Cymru. Roedd y ddogfen hon yn nodi diben a diffiniad fframwaith canlyniadau ac roedd yn gofyn 4 cwestiwn a oedd yn ceisio profi pa un ai'r canlyniadau arfaethedig yn y fframwaith yw'r canlyniadau mwyaf pwysig i blant. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 6 wythnos a chafwyd 12 ymateb.

Manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 51 o ymatebion i'r ymgynghoriad llawn. Mae manylion yr ymatebion fesul sector fel a ganlyn:

Sector	Ymatebion
Sefydliadau'r 3 ^{ydd} sector	11
Sefydliadau Iechyd	12
Sefydliadau Addysg Uwch	2
Arolygiaethau	2
Awdurdodau Lleol	9
Amrywiol	10
Undebau Athrawon	5
Cyfanswm	51

Dadansoddiad o'r ymatebion

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'r sylwadau a gafwyd ar bob cwestiwn yn ogystal ag enghreifftiau penodol o ymatebion. Mae'r holl ymatebion wedi eu hystyried yn llawn ac maent wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r canrannau yn y tablau yn seiliedig ar nifer yr atebion fesul cwestiwn.

Ar 23 Ebrill trafododd Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar¹ y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Cytunwyd ar y newidiadau y dylid eu gwneud o ganlyniad ac maent wedi eu disgrifio isod.

Sylwadau cyffredinol ar yr ymatebion

¹ Mae manylion Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gael yn y ddolen ganlynol - <http://gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/early-years-partnership-board/?skip=1&lang=cy>

Cwestiwn 1: A fydd y fframwaith hwn yn helpu i adnabod y meysydd lle mae polisïau a rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth?

Ateb	Nifer yr ymatebion	Canran y rhai a atebodd
Bydd	28	62%
Na fydd	0	0%
Ansicr	17	38%
Heb ateb	6	-

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'r fframwaith arfaethedig yn yr ymgynghoriad. Roeddynt yn croesawu'r "pwyslais cryf ar fesur a chymryd camau ynglŷn â data am ganlyniadau ym mholisïau Cymru". Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i weld gwahaniaeth gan y bydd y data yn cael ei gasglu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Amlygwyd hefyd bwysigrwydd defnyddio mesurau perfformiad er mwyn asesu pa un a yw unrhyw un mewn sefyllfa well o ganlyniad i'r gwasanaethau a ddarperir ar draws y blynyddoedd cynnar. Awgrymwyd y dylid defnyddio data ansoddol a meintiol ar gyfer hyn. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae mesurau perfformiad yn benodol i sefydliadau a / neu wasanaethau a dyna pam mai dim ond ychydig o enghreifftiau o fesurau perfformiad y gellid eu defnyddio a oedd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith, a hynny at ddibenion esboniadol yn unig. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai canllawiau ychwanegol, astudiaethau achos neu feysydd o arfer da fod yn adnoddau defnyddiol i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi os yw'r fframwaith i wneud gwahaniaeth ym mhob rhan o'r sector blynyddoedd cynnar, ac yn y pen draw i'r canlyniadau rydym yn dymuno eu sicrhau ar gyfer plant.

Roedd yn galonogol clywed bod cefnogaeth i "ymrwymiad gwirioneddol i rannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd er mwyn i waith amlasiantaeth gael yr effaith fwyaf."

Dywedodd un ymatebwr "y dylai'r canlyniadau, a'r data a ddefnyddir i'w mesur, fod yn destun adolygiad rheolaidd a dylai bod modd eu haddasu wrth i'n dealltwriaeth ni o anghenion y blynyddoedd cynnar newid." Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn. Er mwyn ysgogi gwelliannau mae angen bod yn glir o ran atebolrwydd a chraffu. Cytunwyd y bydd Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am weithredu'r Fframwaith, craffu arno a'i adolygu'n barhaus. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y canlynol:

- bod cynhyrchu, rheoli a chyflwyno'r data yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus a'r defnyddwyr gwasanaethau
- bod y dangosyddion yn y Fframwaith yn cynnig gwybodaeth ystyrlon, berthnasol ac amserol
- bod y fframwaith yn parhau i alinio â fframweithiau canlyniadau a mentrau perthnasol eraill
- bod y Fframwaith yn ysgogi gwelliannau ar lefelau cenedlaethol a lleol

- bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithrediad effeithiol y Fframwaith

Cwestiwn 2: A yw'r saith canlyniad yn cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant rhwng 0 a 7 oed?

Ateb	Nifer yr ymatebion	Canran y rhai a atebodd
Ydynt	26	54%
Nac ydynt	8	17%
Ansicr	14	29%
Heb ateb	5	-

Nododd nifer sylweddol fod yr holl ganlyniadau'n gynrychioliadol heblaw am "mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus". Trafodir hyn eto dan gwestiwn 4 isod.

Nododd dau ymatebwr y dylai'r canlyniadau hefyd adlewyrchu'r 7 Nod Craidd ar gyfer Plant. Cytunir bod cyhoeddi'r Fframwaith yn gyfle i hybu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cyfeirir at y Confensiwn yn y ddogfen Fframwaith.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi nad oes Nod benodol ynglŷn â'r ddarpariaeth o Gymraeg wedi ei gynnwys gan ei fod yn rhan annatod o bopeth rydym yn ei wneud a bod y ddarpariaeth Gymraeg wedi ei chwmpasu gan y Nod "Gwasanaethau sy'n diwallu anghenion rhieni, teuluoedd a phlant ar gael ac yn hygyrch". Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg, a'r gallu i gael mynediad atynt, gael ei hadlewyrchu'n fwy amlwg yn y Fframwaith. O ganlyniad i hyn, bydd Nod arall yn canolbwyntio ar ddarpariaeth Gymraeg a'r gallu i gael a datblygu sgiliau Cymraeg yn cael ei ychwanegu at fersiwn derfynol y Fframwaith.

Cwestiwn 3: Os nad yw'r canlyniadau'n cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant rhwng 0 a 7 oed, beth sydd ar goll?

Atebodd 66% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn

lechydd meddwl ac emosiynol

Nododd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd bod y canlyniad "mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn iach" yn cynnwys iechyd meddwl ac emosiynol yn ogystal ag iechyd corfforol. Mae'r data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer iechyd meddwl ac emosiynol, er enghraifft data o wasanaethau cynghori ysgolion yn fesurau perfformiad, ar lefel leol. Fodd bynnag, cytunir y dylid adlewyrchu iechyd meddwl ac emosiynol yn y Fframwaith. Gwneir hyn drwy gysylltiad â'r strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*². Mae'n fwriad hefyd i gyhoeddi enghreifftiau o'r mesurau perfformiad a ddefnyddir gan wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a theuluoedd.

² <http://gov.wales/topics/health/nhs/wales/healthservice/mental-health-services/strategy/?skip=1&lang=cy>

Chwarae

Pwysleisiodd nifer o'r ymatebion bwysigrwydd darparu cyfleoedd chwarae i blant mewn. Er enghraifft, nododd un ymatebwr "Mae chwarae yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd plentyn ifanc, mae'n fodd iddyn nhw wneud synnwyr o'u profiadau bob dydd ac ymdopi â nhw, mae'n sylfaenol i bob agwedd ar ddysgu, bob agwedd ar dwf ac mae'n fodd allweddol o gyfathrebu yn absenoldeb datblygiad gwybyddol a gallu geiriol digonol mewn plant ifanc iawn." Yn wir, erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu darpariaeth chwarae 'gydarferol' sy'n briodol, yn lleol, yn ysgogol ac yn heriol i holl blant Cymru, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cafodd y Nod "parhau i wella cyfleoedd i bob plentyn gael chwarae'n ddiogel" ei gynnwys yn y Fframwaith arfaethedig a bydd yn aros. Mae hwn yn berthnasol i'r holl ganlyniadau, gan ddangos bod pwysigrwydd chwarae yn drawsbynciol ym mhob rhan o'r blynyddoedd cynnar ac yn gallu effeithio ar yr holl ganlyniadau yr ydym yn ceisio eu gwella. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae rheolaidd. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. Bydd modd defnyddio'r data a gesglir o hyn yn fesur perfformiad, ar lefel leol. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y fersiwn derfynol o'r Fframwaith.

Tlodi

Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn dadlau y dylid rhoi diffiniad o 'dlodi'. Er cysondeb, bydd yr un diffiniad ag a nodir yn Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Llywodraeth Cymru (2015)³ yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y fframwaith canlyniadau:

"Gyda thlodi, rydym yn golygu'r cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio byw, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a mannau agored deniadol) mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn."

Argymhellodd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r canlyniad adlewyrchu effaith tlodi yn ogystal â thlodi economaidd. O ganlyniad i'r sylwadau hyn, bydd y canlyniad yn cael ei newid i "nid yw plant yn y blynyddoedd cynnar yn byw mewn tlodi ac nid ydynt dan anfantis o ganlyniad i dlodi". Mae peidio â bod dan anfantis o ganlyniad i dlodi yn adlewyrchu amcanion strategol Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Llywodraeth Cymru. Mae gan y Strategaeth hon ei chyfres ei hun o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar fesur canlyniadau aelwydydd incwm isel. O ystyried eu perthnasedd, bydd fersiwn derfynol y Fframwaith yn cynnwys dolen i'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi fel ei gilydd.

³ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?skip=1&lang=cy>

Cwestiwn 4: A ddylid cynnwys 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' fel canlyniad ar ei ben ei hun?

Ateb	Nifer yr ymatebion	Canran y rhai a atebwyd
Dylid	7	15%
Na ddylid	20	43%
Ansicr	20	43%
Heb ateb	5	-

O ystyried y canlyniadau uchod, ni fydd y canlyniad “mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus” yn cael ei gynnwys yn fersiwn derfynol y Fframwaith. Rhestrwyd nifer o resymau i gefnogi hyn yn yr ymatebion a dderbyniwyd, gan gynnwys y canlynol:

- Nid oes diffiniad y cytunwyd arno ar gael ar gyfer hapusrwydd yn y grŵp oedran hwn
- Mae'r anawsterau wrth fesur hapusrwydd yn gorbwyso ei ddefnyddioldeb fel dangosydd
- Byddai hapusrwydd plant yn ganlyniad i gyfuniad o ganlyniadau, nid un unigol ar ei ben ei hun
- Nod y polisïau a'r rhaglenni blynyddoedd cynnar ddylai fod i greu'r amodau i alluogi plant i fod yn hapus. Mae'n bwysig sicrhau mai lles plant, a gallu darparwyr i gefnogi hyn, sy'n cael ei fesur
- Mae hapusrwydd yn oddrychol
- “Gallai un plentyn fod yn hapus a dangos ei fod yn hapus am ei fod wedi cael ei fwydo heddiw neu am nad yw wedi ei daro heddiw. Gallai un arall deimlo'n hapus a dangos hynny am ei fod yn mynd i Disney”

Cwestiwn 5: Os yw 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' yn ganlyniad ar ei ben ei hun, beth yw'r dangosyddion mwyaf priodol?

Awgrymwyd nifer o ddangosyddion priodol i ddangos bod plant yn y blynyddoedd cynnar yn hapus. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Y graddau y mae plentyn wedi cael / gallu chwarae, yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei barchu ac yn teimlo bod pobl yn gwrandao arno ac yn teimlo ei fod yn perthyn
- Cyfathrebu nad yw'n eiriol, er enghraifft y rhyngweithio rhwng plentyn/rhiant, rhyngweithio ag eraill, pa un a ydynt yn cysgu'n dda, diet, sut y maent yn chwarae, problemau ymddygiad, greddf a chyswllt llygaid
- Perthynas hamddenol a hyderus ag eraill
- Lefelau egni da
- Gallu gwneud dewisiadau hyderus
- Gallu siarad ag oedolion

- Mynegi emosiynau a theimlo'n ddiogel wrth wneud hynny
- Chwarae'n ddigymell
- Cynyddu tuag at dargedau/cerrig milltir
- Parod i gael hwyl a dangos hynny/mwynhau eu hamgylchoedd a'u gweithgareddau
- Wedi eu hysgogi i gymell eu hunain

Gallai fod cyfle i gyfuno rhai mesurau hapusrwydd â Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru

Roedd eraill yn dadlau bod rhai o'r canlyniadau eraill yn y Fframwaith yn cyfrannu at y canlyniad hwn, er enghraifft plentyn yn teimlo'n ddiogel, wedi ei gefnogi ac yn derbyn gofal.

Fel y nodwyd uchod, ni fydd "mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus" yn cael ei gynnwys fel canlyniad ar ei ben ei hun yn y Fframwaith. Fodd bynnag, bwriedir cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd hapusrwydd a lles plant.

Cwestiwn 6: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw adnoddau / mecanweithiau / data eraill y gellid eu defnyddio i fesur canlyniadau o ran y boblogaeth?

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau, gan gynnwys y canlynol:

- cyfraddau bwydo ar y fron
- nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar sy'n rhan o'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Cenedlaethol
- nifer y teuluoedd cymwys sy'n manteisio ar y cynllun Cychwyn Iach
- dangosyddion dirprwyol o gymeriant dietegol e.e. y ffrwythau a'r llysiau sy'n cael eu bwyta
- canran y teuluoedd cymwys sy'n elwa ar y cynllun Cychwyn Iach gan gynnwys menywod a phlant sy'n derbyn fitaminau Cychwyn Iach.
- canran y menywod sy'n dechrau beichiogrwydd â phwysau iach (gan ddefnyddio dosbarthiadau BMI 2006 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ratoriaeth mewn Iechyd a Gofal)
- canran rhieni plant ifanc sy'n nodi cynnydd o ran mynd â phlant i leoedd chwarae
- canran y plant â chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored a phrofi'r amgylchedd naturiol
- mesurau sydd wedi eu cynnwys yn arolwg Tadau Cymru
- mesurau ansoddol gan gynnwys canfyddiadau'r plentyn a'r teulu

Mae'r rhain i gyd yn enghreifftiau o'r data y gellir ei ddefnyddio i benderfynu pa mor dda y mae gwasanaeth yn perfformio ac a yw unrhyw un mewn sefyllfa well o ganlyniad. Maent felly'n enghreifftiau o fesurau perfformiad, yn hytrach na dangosyddion cenedlaethol / poblogaeth.

Trafodwyd y modd y gall Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar wneud gwahaniaeth ym mhob rhan o'r sector, yn yr holl sefydliadau sy'n arwain, yn comisiynu ac yn darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd o adeg beichiogrwydd hyd at saith oed, ym Mwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar. Er nad ydym yn pennu pa fesurau perfformiad penodol y dylai gwahanol sefydliadau eu defnyddio i ysgogi gwelliannau, byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cronfa o astudiaethau achos. Bydd y rhain yn dangos sut y gall defnyddio dulliau Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau arwain at newidiadau go iawn mewn canlyniadau.

Cydnabyddir y bydd o ddefnydd wrth gynllunio'r gwasanaeth os bydd modd i'r data a gesglir ar lefel genedlaethol gael ei ddadansoddi i'r lefel ddaearyddol isaf bosibl.

Cwestiwn 7: A allwch chi weld sut y mae eich cyfraniad chi at y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn cyd-fynd â'r Fframwaith? Os na, beth sydd ar goll?

Ateb	Nifer yr ymatebion	Canran y rhai a atebwyd
Gallaf	28	61%
Na allaf	3	7%
Ansicr	15	33%
Heb ateb	7	-

Mae'n galonogol bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gallu gweld sut y mae eu cyfraniad i'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn cyd-fynd â'r Fframwaith. O'r 7% a nododd 'na allaf' dau reswm yn unig a roddwyd. Y cyntaf oedd y byddai'r sefydliad yn gallu gweld sut y mae ei gyfraniad yn cyd-fynd â'r Fframwaith pe bai'n rhoi mwy o bwyslais ar chwarae. Roedd y llall o'r farn nad yw'r fframwaith yn rhoi digon o bwyslais ar swyddogaeth tadau. Mae'r Fframwaith wedi ei ddatblygu i ganolbwyntio ar y canlyniadau yr ydym yn dymuno eu sicrhau ar gyfer pob plentyn, ni waeth beth yw rhyw eu rhiant/rhieni a'u gofalwyr.

Cwestiwn 8: Y bwriad yw y bydd y fframwaith canlyniadau yn adnodd defnyddiol er mwyn cynllunio a gwerthuso a fydd yn cefnogi gwelliannau lle bo angen. Beth yw'r heriau posibl sy'n gysylltiedig â fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar ar lefel ymarferol, os oes heriau o gwbl?

Roedd y prif heriau a nodwyd fel a ganlyn:

Hygyrchedd

Nododd rhai bod angen i'r Fframwaith fod yn "ymarferol, yn hygyrch ac yn berthnasol" ac "nid dim ond yn offeryn ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar lefel uchel i Lywodraeth Cymru" er mwyn bod yn llwyddiannus, h.y. bod angen iddo wneud gwelliannau gwirioneddol i'r canlyniadau.

Y data sydd ar gael a'i ansawdd

Amlygodd nifer o'r ymatebwyr bwysigrwydd bod data ar gael ar gyfer pob plentyn, nid dim ond y rhai sy'n elwa ar y rhaglenni penodol, er enghraifft Dechrau'n Deg. Er mwyn ysgogi gwelliannau yn y boblogaeth, rhaid i'r Fframwaith ein caniatáu i gasglu gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd ar draws y boblogaeth gyfan ac nid lle mae'r angen mwyaf yn unig. Nodwyd "ar hyn o bryd, mae llawer o'r dangosyddion poblogaeth yn dangos yr hyn sy'n digwydd ar adeg argyfyngus yn unig ac nid oes gennym ddarlun eglur o'r hyn sy'n digwydd ar lefelau is o angen."

Mae angen i'r modd y caiff plant eu hasesu drwy gydol y blynyddoedd cynnar fod yn gyson ar sail genedlaethol er mwyn i'r data a gesglir fod yn ddefnyddiol a bod modd ei gymharu.

Mae angen i'r data a gesglir fod yn gadarn a rhaid i'r holl ddata gael ei fewnosod yn brydlon. Dylai'r systemau a'r dyfeisiau a ddefnyddir ar draws y sector ei gwneud yn bosibl i lanlwytho data yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl. Nododd un o'r ymatebwyr yr enghraifft ganlynol, "mae gan rai ardaloedd ddyfeisiau llaw, h.y. maent yn defnyddio'r system PARIS sy'n arwain at allu casglu data cywir yn effeithlon, heb ddibynnu ar sawl unigolyn gwahanol, er enghraifft ymarferwr, gweinyddwr, post, swyddfa sortio, mewnosodwr data ac ati." Cydnabuwyd y bydd hyn yn her o ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd un ymatebwr bwysigrwydd cofnodi rhyw y rhiant neu'r gofalwr sy'n derbyn y gwasanaethau.

Pwysigrwydd adolygu rheolaidd

Fel yr amlinellwyd yn adran "Cyd-destun" y ddogfen ymgynghori, mae nifer o fframweithiau a/neu fentrau eraill wedi eu sefydlu eisoes sy'n berthnasol i'r blynyddoedd cynnar neu sy'n effeithio arnynt. Pwysleisiodd un ymatebwr hyn yn y sylw canlynol, "Bydd angen adolygu ac adnewyddu'r Fframwaith hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn llawn ag unrhyw bolisi/sbardun strategol/datblygiadau newydd e.e. Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, datblygiad Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar, fframwaith arolygu gofal ac addysg integredig, gwersi o astudiaeth beilot o Fframwaith Dyfarnu Ansawdd AGGCC, unrhyw Ddiwygiadau Lles pellach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac ati."

Fel y nodwyd o dan gwestiwn 1, mae Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar wedi cymryd cyfrifoldeb am adolygu'r Fframwaith yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei fod yn parhau i alinio â mentrau a datblygiadau polisi cysylltiedig eraill.

Cyfathrebu

Bydd y modd y caiff y Fframwaith ei gyflwyno, ei ledaenu a'i hyrwyddo yn fodd o sicrhau cefnogaeth gan rhanddeiliad. Roedd rhai o'r farn y bydd yn her i atal rhanddeiliaid rhag ystyried hwn yn haen arall o asesu yn hytrach nag yn adnodd sy'n tynnu gwelliannau a Fframweithiau datblygu eraill at ei gilydd er mwyn ystyried nodweddion cyffredin. Teimlwyd pe byddai "canllawiau yn eglur a bod digon o gymorth/hyfforddiant ar gael, byddai darparwyr y Blynyddoedd Cynnar yn gallu cael cymorth i gysylltu'r gwahanol elfennau ar eu gwaith". Bydd hyn o gymorth i ymwreiddio'r defnydd o'r Fframwaith ar draws holl arferion y blynyddoedd cynnar.

Roedd rhai o'r farn, o safbwynt Llywodraeth Cymru, y bydd y dasg o sicrhau ansawdd adroddiadau'r Fframwaith er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson yn her.

Rhannu gwybodaeth

Pwysleisiodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr bwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws y blynyddoedd cynnar er mwyn gwella canlyniadau i blant a theuluoedd. Argymhellwyd y dylid cytuno ar brotocolau rhannu gwybodaeth, lle bo hynny'n briodol, i gefnogi'r broses. Byddai hyn yn digwydd ar draws sectorau megis iechyd ac addysg.

Roedd un ymatebwr o'r farn, "Bod angen parhaus am broses olrhain unigol, yn unigryw i bob plentyn. Mae trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol rhwng yr holl asiantaethau dan sylw yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol." Teimlwyd hefyd fod, "arweinwyr ysgolion yn aml heb unrhyw rym i fynnu bod asiantaethau eraill yn darparu'r hyn sy'n briodol i blentyn. Gallai'r fframwaith canlyniadau roi mwy o wybodaeth i ysgolion ei defnyddio yn ystod y cam cynllunio i benderfynu pa gymorth fyddai'n ddefnyddiol i'r plentyn/teulu. Ond heblaw bod ganddynt y pŵer i sicrhau bod eraill yn atebol yn ogystal â bod yn atebol eu hunain, nid oes gan ysgolion unrhyw fodd o werthuso cyfraniad (neu ddiffyg cyfraniad) yr asiantaeth sy'n darparu'r gwasanaeth."

Cyfeiriwyd at Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar yn y ddogfen ymgynghori (t6 a t11). Mae'r hwn yn cael ei ddatblygu er mwyn darparu un fframwaith asesu cyffredinol o'r cyfnod cyn-geini i 7 oed. Bydd yn hwyluso cysondeb ar adeg bob asesiad i bob plentyn yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Bydd yn cael ei gefnogi hefyd gan ymagweddau cryfach tuag at adegau trawsnewid allweddol i blentyn a'i deulu.

Adnoddau

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y bydd Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar yn rhoi pwysau gwaith anghynaliadwy ar ymarferwyr ar draws sector y blynyddoedd cynnar. Dywedodd un ymatebwr, "Ni ddylai fod yn feichus, o ystyried bod llawer o'r staff mewn lleoedd nas cynhelir nad ydynt yn derbyn llawer o amser â thâl i wneud gwaith gweinyddol, os o gwbl."

Heriau eraill i'w cadw mewn cof

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Mae'r lefel yn rhy uchel i werthuso rhaglenni ar lefel ymarferol
- Mae llawer o'r dylanwadau sy'n effeithio ar ganlyniadau y tu hwnt i ddylanwad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Yn aml, mae gan ddata a gesglir yn rheolaidd gyfyngiadau, mae wedi ei ddiffinio'n wael yn aml (nid yw pawb yn casglu'r un peth yn yr un modd) ac mae nifer o broblemau ansawdd yn gyffredin.
- Mae ychydig o fisoedd yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i gyrhaeddiad plant yn y blynyddoedd cynnar, mae angen bod yn ofalus wrth fesur ar adegau y gellid cymharu plant unigol e.e. bydd mesurau a gymerir yn ystod blwyddyn ysgol ar un adeg yn cynnwys plant a allai fod sawl mis yn hŷn neu'n iau na'i gilydd. Er y gallai hyn fod yn briodol dros amser ar gyfer mesur tueddiadau poblogaeth, nid yw'n briodol wrth ystyried canlyniadau plant unigol.

Ymgynghoriad Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar sy'n gyfeillgar i bobl ifanc

Roedd athro Blwyddyn 2 wedi lanlwytho'r ddogfen ar fwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn trafod y cynnwys fel dosbarth. Daeth 12 ymateb ysgrifenedig i law gan y dosbarth hwnnw. Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r canlyniadau arfaethedig, ac roedd y rhan fwyaf yn pwysleisio pwysigrwydd addysg dda, derbyn gofal, cefnogaeth a chael eu gwerthfawrogi a pheidio â byw mewn tlodi neu beidio â bod dan anfantais o ganlyniad i dlodi.

Camau nesaf

Goruchwyliwyd y gwaith o ddatblygu Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar gan Fwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar (<http://gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/early-years-partnership-board/?skip=1&lang=cy>). Mae'r Bwrdd wedi ystyried y pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori ac wedi cytuno ar y newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Fframwaith, fel y cyflwynwyd yn yr adroddiad hwn.

Bydd fersiwn derfynol y Fframwaith yn cael ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf ac fe'i defnyddir i gefnogi'r cylch adrodd blynyddol ar gyfer y Rhaglen. Bydd y data sydd wedi ei gynnwys yn y Fframwaith yn cael ei gasglu a'i gyflwyno gyda'r adroddiad cynnydd blynyddol ar y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ym mis Gorffennaf 2015. Bydd agenda datblygu data yn cyd-fynd â'r Fframwaith.

Gan ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd drwy'r ymarfer ymgynghori byddwn yn gweithio gydag aelodau o Fwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu astudiaethau achos. Bydd y rhain yn dangos sut y gellid defnyddio Fframwaith

Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar i wella'r gwasanaethau y maent yn gweithio ynddynt, ac yn cyfrannu at wella'r canlyniadau cyffredinol yr ydym yn dymuno eu sicrhau ar gyfer holl blant Cymru.